DEDDF PRIFFYRDD 1980, ADRAN 119

**CAIS AM ORCHYMYN I WYRO YN BARHAOL RAN NEU'R CYFAN O HAWL TRAMWY CYHOEDDUS**

Dylid ateb y cwestiynau a ganlyn mor llawn â phosibl a dychwelyd y ffurflen i'r Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus, Cyngor Gwynedd, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH.

Mae'n ofynnol eich bod yn anfon:

1. Dau gopi o'r cynllun sy'n dangos yr Hawl Tramwy Cyhoeddus o dan sylw gyda llinell y gwyriad wedi ei farcio'n glir arno ynghyd â manylion perchnogaeth y tir.
2. Unrhyw gytundebau perthnasol gan berchnogion tir/ berchennog/deilwyr i'r cynnig.

**Enw a chyfeiriad yr ymgeisydd**

a) Enw
b) Cyfeiriad

c) Rhif Cyswllt Ffôn

**Enw a chyfeiriad yr asiant (os yn berthnasol)**

a) Enw
b) Cyfeiriad

c) Rhif Ffôn
d) Proffesiwn

Enw a chyfeiriad perchennog/perchnogion y tir ar bob ochr i'r Hawl Tramwy Cyhoeddus sydd i'w wyro

a) Enw
b) Cyfeiriad

Os nad ydych chi, yr ymgeisydd, ddim yn berchen ar y tir ble mae rhan, neu'r cyfan o'r llwybr newydd yn rhedeg arno, ydych chi wedi cael caniatâd ysgrifenedig y perchennog/perchnogion tir? **DO/NADDO** (os **do** atodwch)

a) Enw
b) Cyfeiriad

Ydych chi wedi derbyn caniatâd ysgrifenedig gan unrhyw brydlesai neu Denant neu Ddeiliad? **DO/NADDO** (Os DO atodwch y caniatâd)

Enw'r Prydlesai, Deiliad neu Denant

Cyfeiriad

**ADRAN B: HAWL(IAU) TRAMWY CYHOEDDUS I'W GWYRO**

Enw'r Gymuned neu'r Cymunedau ble lleolir y llwybr/llwybrau:

Nifer yr Hawl(iau) Tramwy Cyhoeddus fel a ddangosir ar y Map Swyddogol (os yn wybyddus).
………………………………………….. o Gyfeirnod Grid AO (ble mai dim ond un llwybr sydd dan sylw)
………………………….. i Gyfeirnod Grid AO …………….

Disgrifiad cyffredinol o'r llwybr(au):

Statws: Mae'r llwybr(au) a effeithir yn llwybr troed/llwybr ceffyl/cilffordd gyfyngedig
(dilëwch y term sydd ddim yn gymwys)

Rhowch enw'r papur(au) newydd lleol a ddosberthir yn yr ardal.

**ADRAN C: RHESWM DROS WYRO**

Mae Adran 119 o Ddeddf Priffyrdd 1980, fel a newidiwyd gan Atodlen 16 Paragraff 5 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 yn caniatáu gwyro llwybrau cyhoeddus, llwybrau ceffyl a chilffyrdd cyfyngedig ar y sail ei fod yn gyfleus er budd (i) y perchennog, prydlesai neu ddeilydd neu (ii) y cyhoedd. Nodwch, os gwelwch yn dda, os yw'r cais yma er budd (i) neu (ii) rhowch y rhesymau penodol pam:

Pa effaith fydd y gwyro yn ei gael ar hwylustod a mwynhad y llwybr gan y cyhoedd?

**ADRAN D: DATGANIAD**
**(Darllenwch yn ofalus os gwelwch yn dda a'i newid fel bo angen ac yna ei arwyddo).**

1 (Dilëwch y datganiad yma os nad yw'n gymwys) 'Rwyf i/'Rydym ni yn berchen ar y tir sydd ag ymyl goch ar y cynllun atodol yr wyf i/ydym ni wedi ei arwyddo a'i ddyddio.

2 'Rwyf i/'Rydym ni wedi darllen a deall y nodiadau canllaw sy'n atodol i'r cais hwn. 'Rwyf i/'Rydym ni yn cytuno i gydymffurfio gyda'r amodau a ganlyn o safbwynt y cais hwn:

a. Rhaid i'r llwybr amgen arfaethedig fod o leiaf cymaint o ran adeiladwaith â hyd y llwybr mae'n cymryd ei le a bod ac arwyneb cystal neu well.

b Rhaid i'r llwybr amgen arfaethedig gael ei adeiladu er bodlondeb Cyngor Gwynedd

c Bydd lleoli a'r math o bontydd newydd, camfeydd, giatiau neu ffensio yn cael ei gytuno gyda'r Cyngor cyn eu codi a'u cynnal yn y dyfodol ar gost yr ymgeisydd (oni bai y cytunwyd yn benodol fel arall yn ysgrifenedig gyda Chyngor Gwynedd).

d Bydd unrhyw waith draenio angenrheidiol yn cael ei ymgymryd ar gost yr ymgeisydd ac yn cael ei adeiladu yn ôl manyldeb a bodlondeb Cyngor Gwynedd.

e Bydd y llwybr(au) amgen yn cael eu harwyddo a'u cyfeirbwyntio er bodlondeb Cyngor Gwynedd.

3 Os yw'r Cyngor yn cytuno i lunio'r gorchymyn i wyro'r llwybr(au) byddaf i/byddwn ni yn ymgymryd â gwaith ar y llwybr sydd wedi ei wyro fel a bennir gan Gyngor Gwynedd, ar ein cost ein hunain, i sicrhau fod y llwybr mewn cyflwr addas i'r cyhoedd ei ddefnyddio ar yr amser pan ellir cadarnhau'r gorchymyn gwyro.

4 'Rwyf i/'Rydym ni yn deall na fydd unrhyw awdurdod i wyro Hawl Tramwy yn cael ei gyflwyno oni bai a phan fo Gorchymyn wedi ei wneud a'i gadarnhau a bydd hysbysiad am ei lunio a'i gadarnhau wedi ei gyhoeddi.

5 'Rwyf i/Rydym ni yn cadarnhau nad oes unrhyw rwystr i'r Hawl(iau) Tramwy sydd i'w gwyro a'u bod ar gael yn llawn i'r cyhoedd ac rwyf i/rydym ni yn ymgymryd na fydd(ant) ag unrhyw rwystr cyn fod y Gorchymyn yn dod yn weithredol.

6 'Rwyf i/Rydym ni yn datgan hyd eithaf fy ngwybodaeth /ein gwybodaeth a'n cred fod yr holl fanylion a roddwyd yn gywir ac yn wir ac rwyf/rydym drwy hyn yn gwneud cais i wyro'r llwybr(au) a fanylwyd uchod.

7 'Rwyf i/Rydym ni hefyd yn datgan y byddaf/byddwn yn talu i Gyngor Gwynedd yr holl gostau sy'n gysylltiedig gyda llunio'r Gorchymyn yn cynnwys costau hysbysebu.

Arwyddwyd: Dyddiad: